Adroddiad Blynyddol gan Gynghorydd 2020/21

Hwn yw'r adroddiad gan y Cynghorydd isod ar ei weithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021. Darperir yr adroddiad er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid i unrhyw bwrpas arall. Safbwyntiau'r Cynghorydd unigol yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt, o angenrheidrwydd, yn adlewyrchu barn Cyngor Sir Ynys Môn.

Cynghorydd: Gwilym O Jones
Parti: Y Grŵp Annibynnol **Ward:** Llifon

1 - Rôl a Chyfrifoldebau

Rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021, eisteddais ar y prif bwyllgorau / is-bwyllgorau canlynol:	**Crynodeb o Bresenoldeb**
Cyngor Sir Ynys Môn	Cofnod Presenoldeb
Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG)	
Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu	
Pwyllgor Buddsoddi A Chontractau	
Pwyllgor Cyswllt Y Sector Gwirfoddol	
Pwyllgor Safonau - Panel Penodi	
Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio (Cadeirydd)	
Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn	
Nid yw'r rhestr uchod yn cynnwys pob cyfarfod sy'n ymwneud â gwaith y Cyngor Sir. Gall presenoldeb amrywio oherwydd natur gwaith a chyfrifoldebau aelodau - fel deilydd portffolio, cadeirydd pwyllgor neu fel cynrychiolydd y Cyngor ar gyrff allanol, er enghraifft.	

Rwy'n aelod o Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn. Rwyf hefyd yn aelod o Bwyllgor Buddsoddi a Chontractau'r Ymddiriedolaeth – mae manylion am fy mhresenoldeb yn y cyfarfodydd hyn ar gael hefyd ar y ddolen uchod.

Rwy'n cynrychioli'r Cyngor ar y cyrff allanol canlynol:

Corff allanol	Crynodeb o rôl a chyfraniad
- Fforwm Iaith Môn - Grŵp Rhanddeiliad y Safle Wylfa - Llywodraethwr / Ysgol Gynradd Y Fali - Llywodraethwr / Ysgol Uwchradd Bodedern - Pwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol	

2 - Gweithgareddau yn yr Etholaeth

Rwy'n gweithredu fel aelod o Gyrff Llywodraethwyr Ysgol Uwchradd Bodedern yn cynnwys Paneli Staffio a Chyllid ac Ysgol y Fali.

Rwyf yn aelod o Cyngor Cymuned Llanfair yn Neubwll ac yn mynychu cyfarfodydd Cynghorau Cymuned y Fali a Llanfaelog. Bum yn delio ag amrywiol bynciau a materion ar ran Etholwyr yn y Ward – naill ai'n bersonol, trwy e-bost neu ar y ffôn.

3 - Mentrau a Gweithgareddau Arbennig

Bum yn delio ag amryw o faterion lleol yn ôl y galw gan gynnwys materion Cynllunio, Tai, Budd-daliadau, Gor-yrru mewn pentrefi a.y.y.b. Bum yn ceisio gwella gwasanaeth bws i weithwyr RAF Fali.

4 - Dysgu a Datblygu

Mae gwybodaeth am y mentrau dysgu a datblygu rwyf wedi'u mynychu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ar gael yma (gwybodaeth wedi'i ddarparu gan Gyngor Sir Ynys Môn): Hyfforddiant

5 - Gweithgareddau a Materion Eraill

Mynychais gwasanaethau boreol ar ran Pwyllgor CYSAG y Cyngor yn ysgolion lleol. Rwy'n parhau i fod yn Gadeirydd Papur Bro 'Y Rhwyd' a Chadeirydd Pwyllgor Neuadd Caergeiliog.

Rwy'n parhau i fod ar gael i ddelio gydag unrhyw broblemau a gaiff fy etholwyr a gallant gysylltu gyda mi dros y ffôn, drwy lythyr neu drwy e-bost.

Ceir rhagor o wybodaeth amdanaf yma: Cynghorydd Gwilym O Jones

Cynghorydd Gwilym O Jones	**Mehefin 2021**